

Hysbysiad hwylus

Iechyd anifeiliaid – Rhannu Cyfrifoldebau a Chostau Gorffennaf 2011

1. Beth yw rhannu cyfrifoldebau a chostau iechyd anifeiliaid?

Mae rhannu costau'n cyfeirio at **rannu costau sy'n gysylltiedig ag iechyd anifeiliaid rhwng y Llywodraeth a diwydiant**. Cyfeirir yn aml at rannu cyfrifoldebau mewn cysylltiad â rhannu costau.

Credir bod cael rheolaeth ddigonol ar glefydau mawr nad ydynt fel arfer yn bresennol yn y DU neu'r UE, fel Clwy'r Traed a'r Genau (FMD) neu glefydau a all heintio pobl hefyd (milheintiau), o fwy o fudd i gymdeithas ac felly trethdalwyr y DU sy'n cwrdd â'r gost gan amlaf. Y diwydiant da byw sy'n cwrdd â'r gost o reoli clefydau endemig sy'n effeithio ar les anifeiliaid a chynhyrchiant ond na thybir eu bod o bryder sylweddol i'r cyhoedd.¹ Mae'r Llywodraeth a diwydiant hefyd yn rhannu costau rheoli rhai clefydau yn y DU. Er enghraifft, cafodd rhai o gostau rheoli Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol (BSE) a chlefyd y crafu (TSE) eu trosglwyddo i ddiwydiant dros y blynyddoedd diwethaf – ceidwaid da byw sydd bellach yn gyfrifol am waredu stoc trig yn gywir er mwyn atal trosglwyddo clefydau o'r fath.²

Mae **Trefniadau rhannu costau** fel ardollau, cynlluniau yswiriant a chyfraniadau diwydiant safonol at gostau clefydau, **eisoes ar waith mewn llawer o wledydd eraill** fel Seland Newydd, yr Almaen, yr Iseldiroedd a Ffrainc.³

2. Pa ddadleuon a gyflwynwyd dros rannu costau?

Yn ôl yr England Advisory Group on Responsibility and Cost Sharing:

'The overall aim of Responsibility and Cost Sharing is to reduce the risk and cost of animal disease and improve the welfare of kept animals.'⁴

Cofnododd ymchwiliad Anderson yn 2002 i epidemig Clwy'r Traed a'r Genau yn 2001 fod **anghydbwysedd rhwng cost a budd rheoli clefydau rhwng grwpiau rhanddeiliaid** ar hyn o bryd. Amcangyfrifir bod epidemig Clwy'r Traed a'r Genau yn 2001 wedi costio tua

¹ England Advisory Group on Responsibility and Cost Sharing, *Final Report*, Rhagfyr 2010 [Cafwyd mynediad ato ar 10 Mawrth 2011]

² Defra, *Fallen stock and other animal carcasses*, 4 Medi 2009 [Cafwyd mynediad ato ar 9 Mawrth 2011]

³ England Advisory Group on Responsibility and Cost Sharing, *Final Report*, Rhagfyr 2010 [Cafwyd mynediad ato ar 10 Mawrth 2011]

⁴ ibid

£2.8 biliwn i Lywodraeth y DU, gyda hanner hynny'n iawndal a dalwyd i ffermwyr. Amcangyfrifwyd bod y gost gyffredinol i'r diwydiant amaeth erbyn Mai 2002 oddeutu £355 miliwn lle'r oedd y gost i sectorau eraill yn llawer mwy – amcangyfrifir bod y diwydiant twristiaeth wedi gwneud colled o fwy na £2.7 biliwn.⁵

Daeth ymchwiliad Anderson i'r casgliad canlynol:

'On narrow economic grounds, it is difficult to see why costs as substantial as those of the 2001 epidemic should be met by people not engaged in agriculture...

...We accept that it is neither possible nor acceptable that the farming industry should bear the full costs associated with that control. There are wider benefits of controlling FMD, which accrue to the country as a whole. The implication of this is that **the public should bear at least some of the costs of maintaining a healthy and extensive livestock industry.** But, in return, the farming industry must recognise that it, along with others, has responsibilities for the rural economy and should contribute to its future development.'⁶

Roedd Strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid Prydain Fawr, a ryddhawyd yn 2004, â safbwynt tebyg:

'...in principle the taxpayer should really only be expected to pay for genuine public good. The distribution of costs should not only better reflect where the balance of responsibilities lie for managing the risks, but also take account of those who benefit from measures to manage them'⁷

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd hefyd yn fwyfwy pryderus am swm yr arian sy'n cael ei wario ar faterion yn ymwneud ag iechyd anifeiliaid.⁸ Rhwng 1997 a 2005 cafodd y DU **59 y cant** o gyfanswm cyfraniad yr UE tuag at fesurau brys yn ymwneud ag iechyd anifeiliaid. Roedd hefyd yn un o saith Aelod Wladwriaeth, o'u cyfuno, a gafodd **88 y cant** o gyfraniadau'r UE tuag at reoli a monitro clefydau anifeiliaid a milheintiau yn genedlaethol.⁹

Fodd bynnag, mae pryderon ynghylch yr effaith y bydd rhannu costau'n ei gael ar amaethyddiaeth. Er enghraifft, roedd ymatebwyr i ymgynghoriad ar iechyd anifeiliaid ¹⁰ a wnaed gan Defra yn 2009 yn **pryderu y byddai rhannu costau'n effeithio ar hyfywdra'r diwydiant da byw.** Mynegwyd pryder hefyd am y posibilrwydd o ddryllio polisi ac agwedd tuag at reoli clefydau yn y DU ac y **gallai gwahaniaeth barn rhwng Lloegr a'r gweinyddiaethau datganoledig amharu ar amseroedd ymateb i achosion o glefydau.**¹¹

⁵ Anderson, I., *Foot and Mouth Disease: Lessons to be Learned Inquiry Report (Adran 14.1) HC 888*, 22 Gorffennaf 2002 [Cafwyd mynediad ato ar 9 Mawrth 2011]

⁶ ibid

⁷ Defra, *Animal Health and Welfare Strategy for Great Britain*, 2004 [Cafwyd mynediad ato ar 9 Mawrth 2011]

⁸ Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Responsibility and Cost Sharing for Animal health and Welfare in Wales*, Mawrth 2008 [Cafwyd mynediad ato ar 9 Mawrth 2011]

⁹ *9536/08*, 22.5.2008 [Cafwyd mynediad ato ar 10 Mawrth 2011]

¹⁰ Defra, *Consultation on a new independent body for animal health: a modern governance and funding structure for tackling animal disease*, Mawrth 2009 [Cafwyd mynediad ato ar 11 Mawrth 2011]

¹¹ Defra, *Summary of Response to the consultation on a new independent body for animal health* Mehefin 2009 [Cafwyd mynediad ato ar 11 Mawrth 2011]

3. Beth yw'r polisi presennol ar rannu costau?

Polisi'r UE ar rannu costau

Lansiwyd yr **EU Community Animal Health Strategy 2007-2013** ym mis Medi 2007¹² ac yn 2008 amlinellodd y Comisiwn Ewropeaidd Gynllun Gweithredu ar gyfer ei rhoi ar waith.¹³ Nod y Cynllun Gweithredu yw rhoi **Cyfraith Iechyd Anifeiliaid newydd yr UE** ar waith a **mabwysiadu cynnig deddfwriaethol erbyn 2012** a fyddai'n caniatáu datblygu system gyson o rannu costau ar draws yr holl Aelod Wladwriaethau.¹⁴ Gall hyn gynnwys **cynllun yswiriant amaethyddol cyhoeddus Ewropeaidd**.¹⁵

Polisi Llywodraeth y DU ar rannu costau

Rhyddhawyd y **Strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid ar gyfer Prydain Fawr** ym mis Mehefin 2004 ac roedd yn amlinellu fframwaith ar gyfer rhannu cyfrifoldebau a chostau materion yn ymwneud ag iechyd anifeiliaid.¹⁶ Sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Llywio'r Strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid ym mis Hydref 2004 er mwyn goruchwyllo'r Strategaeth yn cael ei rhoi ar waith yng Nghymru.¹⁷

Ym mis Ionawr 2010 cyhoeddodd Llywodraeth flaenorol y DU **Fesur Iechyd Anifeiliaid Drafft** a oedd yn amlinellu elfennau trefn rheoli clefydau trwy Rannu Cyfrifoldebau ar gyfer Lloegr. Byddai rhai elfennau o hwn hefyd wedi effeithio ar Gymru.¹⁸ Yn dilyn Etholiad Cyffredinol 2010 **tynnodd Llywodraeth Glymbleidiol y DU y Mesur Seneddol Drafft yn ôl**¹⁹ ond ni chefnwyd ar y syniad o rannu costau'n llwyr. Mae Rhaglen Llywodraeth Llywodraeth y DU yn nodi y bydd yn **ymchwilio i ffyrdd o rannu'r cyfrifoldeb am baratoi ar gyfer achosion o glefydau ac ymdrin â hwy, gyda cheidwaid da byw**.²⁰ Ym mis Rhagfyr 2010, darparodd yr England Advisory Group on Responsibility and Cost Sharing, a sefydlwyd gan Lywodraeth flaenorol y DU, argymhellion ar gyfer rhannu costau yn Lloegr. Daeth Grŵp Cynghori Lloegr i'r casgliad ei bod yn gymhleth iawn penderfynu ar ba sail y dylid rhannu costau ac felly dylai Llywodraeth y DU geisio'n gyntaf sefydlu patrwm o weithio mewn partneriaeth rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat er mwyn trafod

¹² Y Comisiwn Ewropeaidd, *[A new Animal Health Strategy for the European Union \(2007-2013\) where "Prevention is better than cure"](#)*, 2007 [Cafwyd mynediad ato ar 9 Mawrth 2011]

¹³ [COM\(2008\)545](#), 10.9.2008 [Cafwyd mynediad ato ar 9 Mawrth 2011]

¹⁴ Y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Iechyd a Defnyddwyr, *[Animal Health and Standing Committees DG SANCO Unit D1 Activity Report 2009](#)*, 2010 [Cafwyd mynediad ato ar 10 Mawrth 2011]

¹⁵ England Advisory Group on Responsibility and Cost Sharing, *[Final Report](#)*, Rhagfyr 2010 [Cafwyd mynediad ato ar 10 Mawrth 2011]

¹⁶ Defra, *[Animal health and Welfare Strategy for Great Britain](#)*, 2004 [Cafwyd mynediad ato ar 9 Mawrth 2011]

¹⁷ Llywodraeth Cynulliad Cymru, *[Grŵp Llywio'r Strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid](#)*, Tudalen We [Cafwyd mynediad ati ar 15 Mawrth 2011]

¹⁸ Llywodraeth Cymru, Elin Jones (y Gweinidog dros Faterion Gwledig), *[Cyhoeddi'r Mesur Iechyd Anifeiliaid Drafft](#)*, (Datganiad Ysgrifenedig) 1 Chwefror 2010 [Cafwyd mynediad ato ar 10 Mawrth 2011]

¹⁹ England Advisory Group on Responsibility and Cost Sharing, *[Final Report](#)*, Rhagfyr 2010 [Cafwyd mynediad ato ar 10 Mawrth 2011]

²⁰ Llywodraeth y DU, *[Coalition: our programme for government](#)*, Gwefan [Cafwyd mynediad ati ar 9 Mawrth 2011]

materion mewn perthynas â rhannu cyfrifoldebau a chostau ac yn ail, sefydlu trefniadau rhannu cyfrifoldebau clir cyn penderfynu ar fanylion unrhyw raglen rhannu costau.

Mewn ymateb i'r argymhelliad hwn cyhoeddodd Gweinidog Amaeth y Du ym mis Ebrill 2011 y byddai'n sefydlu Bwrdd Iechyd a Lles Anifeiliaid ar gyfer Lloegr a fydd yn dod ag arbenigwyr ynghyd o Lywodraeth y DU ac oddi allan iddi, er mwyn pennu blaenoriaethau polisi strategol ar gyfer iechyd anifeiliaid, a'u trafod, penderfynu ar flaenorlaethau gwyliadwraeth ac ymchwil ac ystyried pa ddulliau codi tâl y dylid eu cyflwyno os y dylid eu cyflwyno o gwbl.²¹

Ariannu iechyd anifeiliaid yng Nghymru

Mae cyfrifoldebau am iechyd anifeiliaid wedi eu datganoli'n llawn ers 2006 ond cyn 2011 cafodd y rhan fwyaf o'r gwariant ar iechyd anifeiliaid yng Nghymru **ei ariannu gan Defra**.²² Gallai Llywodraeth Cymru barhau i ddewis ymdrin â materion yn ymwneud ag iechyd anifeiliaid ar lefel ddatganoledig os oedd hynny'n briodol e.e. rheoli TB buchol.²³ **5.8 y cant o'r gwariant ar iechyd anifeiliaid yn Lloegr** oedd cyfanswm yr arian a gafodd Cymru gan Defra ar gyfer iechyd anifeiliaid gan fod poblogaeth Cymru gyfwerth â 5.8 y cant o boblogaeth Lloegr. Felly, gan fod gwariant ar iechyd anifeiliaid yn Lloegr wedi newid, newidiodd yr arian a oedd ar gael i Gymru hefyd.²⁴

Ar 14 Mawrth 2011, cyhoeddodd Elin Jones, y cyn Weinidog dros Faterion Gwledig fod **y gyllideb iechyd anifeiliaid bellach wedi'i datganoli'n llawn ac y bydd Cymru'n cael tua 14 y cant o gyllideb Prydain Fawr ar gyfer iechyd anifeiliaid o flwyddyn ariannol 2011-2012**. Mae hyn gyfwerth ag 20 y cant o gyllideb iechyd anifeiliaid Lloegr ar gyfer 2011-2012 ac mae'r Gweinidog wedi nodi ei fod 'yn adlewyrchu'n well ein hanghenion a'r gwaith sydd angen ei wneud' na'r 5.8 y cant a gafwyd yn y blynyddoedd blaenorol. Dros bedair blynedd yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, bydd Cymru'n cael £77.71m ar gyfer iechyd anifeiliaid.²⁵

Polisi Llywodraeth Cymru ar rannu costau

Cyn datganoli'r gyllideb iechyd anifeiliaid roedd pryder y gallai polisi rhannu costau Lloegr effeithio ar Gymru hefyd. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddau ymgynghoriad ar rannu costau yn 2006 ac yn 2008, mewn ymateb i ddatblygiadau yn Lloegr. Cyhoeddwyd y

²¹ Llywodraeth y DU, [*Coalition: our programme for government*](#), Gwefan [Cafwyd mynediad ati ar 9 Mawrth 2011]

²³ Llywodraeth Cynulliad Cymru, [*Responsibility and Cost Sharing for Animal Health and Welfare in Wales*](#), Mawrth 2008 [Cafwyd mynediad ato ar 9 Mawrth 2011]

²⁴ Y Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid i Gymru, [*Funding devolved government in Wales: Barnett and beyond*](#), Gorffennaf 2009 [Cafwyd mynediad ato ar 16 Mawrth 2011]

²⁵ Llywodraeth Cymru, Elin Jones (y Gweinidog dros Faterion Gwledig), [*Datganoli Cyllidebau ar gyfer iechyd a Lles Anifeiliaid o DEFRA*](#), (Datganiad Ysgrifenedig) 14 Mawrth 2011

diwethaf mewn ymateb i ymgynghoriad gan Defra yn 2007 ar rannu cyfrifoldebau a chostau yn Lloegr. Yn nogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru yn 2008, nododd Elin Jones, y cyn Weinidog dros Faterion Gwledig:

'The proposals within DEFRA's consultation have the potential to impact widely on the livestock industry in Wales.

Whilst I continue to have **grave reservations** about this being the right time to press ahead with this agenda given that the industry in Wales remains under considerable financial strain following several disease emergencies, I recognise that **Wales cannot stand apart from the decisions being taken by DEFRA**. I have, therefore, taken the decision to consult in Wales.

It is important that we **develop a coherent Wales view** on how responsibility and cost sharing is best taken forward. We must work in partnership to **ensure that Welsh interests are represented** and play a full part in the development of proposals; ensuring that issues important to Wales such as flexibility to adopt an approach that suits Wales and the affordability of proposals are taken into account.²⁶

Nododd Llywodraeth Cymru yn yr ymgynghoriad ei bod yn **gwrthwynebu creu sefydliad anllywodraethol newydd** i ymdrin â materion yn ymwneud ag iechyd anifeiliaid drwy'r DU gyfan er **nod oedd, o angenrheidrwydd, yn gwrthwynebu cyflwyno ardoll**. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn nodi fod y Llywodraeth yn credu mai'r gweinyddiaethau unigol ddylai ymdrin â rheoli clefydau endemig a rhannu costau a chyfrifoldeb am y mathau hyn o glefydau, er bod angen agwedd Prydain Fawr gyfan at reoli clefydau egsoftig e.e. clwy'r traed a'r genau a fflw adar.²⁷

Nododd nifer o ymatebwyr i ymgynghoriad 2008 ei bod yn anodd ffurfio barn bendant am y polisi heb gael rhagor o wybodaeth am y systemau creu refeniw posibl, yr amrywiaeth o anifeiliaid i'w cynnwys yn y cynlluniau rhannu costau, sefyllfa'r Comisiwn Ewropeaidd o ran rhannu costau a gwybodaeth gyllidebol ac ariannol fanwl am y costau/cyllid presennol ar gyfer rheoli clefydau.²⁸ Mae rhywfaint o'r wybodaeth hon yn parhau i fod ar goll. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch fforddiadwyedd rhannu costau a'i effaith ar gynaliadwyedd a phroffidioldeb y diwydiant amaeth yng Nghymru. Nododd rhai ymatebwyr fod **y diwydiant eisoes yn rhannu costau** e.e. drwy drin clefydau a brechu, a thrwy golledion a gafwyd o ganlyniad i gyfyngiadau gorfodol ar symud (safiad stond am 6 diwrnod), cyfyngiadau TB buchol a mesurau rheoli yn ystod achosion o glefydau mawr.²⁹

²⁶ ibid

²⁷ Llywodraeth Cymru, Elin Jones (y Gweinidog dros Faterion Gwledig), [*Datganoli Cyllidebau ar gyfer Iechyd a Lles Anifeiliaid o DEFRA*](#), (Datganiad ysgrifenedig) 14 Mawrth 2011

²⁸ Llywodraeth Cynulliad Cymru, [*Summary of Responses to the Consultation on Responsibility and Cost Sharing for Animal health and Welfare in Wales*](#), 2009 [Cafwyd mynediad ato ar 11 Mawrth 2011]

²⁹ ibid

Darparodd Llywodraeth Cymru'r wybodaeth ganlynol i Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau ym mis Chwefror 2010:

'It is essential to consider fully the development of an appropriate Responsibility and Cost Sharing policy for Wales, **taking account of the principles of affordability and flexibility to deal with regional issues**...It is sensible that the **European position is properly considered** as part of developing the right policy for Wales.No decisions have yet been taken on Responsibility and Cost Sharing in Wales. Consultation with industry stakeholders will continue to form a vital part of the policy making process.'

Ers hynny, fel y cyfeiriwyd uchod, cafodd y gyllideb ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid ei datganoli. Yn y datganiad a gyhoeddwyd ar adeg y cyhoeddiad ar ddatganoli'r gyllideb iechyd anifeiliaid nododd Elin Jones, y cyn Weinidog dros Faterion Gwledig y byddai hyn yn rhoi i Lywodraeth Cymru 'y pwerau a'r gyllideb i daclo ein blaenoriaethau ym maes iechyd anifeiliaid yng Nghymru'.³⁰ Fodd bynnag nododd y Gweinidog hefyd y bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio'n agos â gweinyddiaethau ar draws y DU i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag iechyd anifeiliaid fel achosion o glefydau egsotig. Yn ychwanegol at hynny bydd Defra yn parhau i ariannu gweithgareddau a gwasanaethau y cytunodd y gweinyddiaethau y dylid eu darparu ar lefel y DU fel Iechyd Anifeiliaid a'r Asiantaeth Labordai Milfeddygol.^{31,32} Er na chyfeiriwyd yn fanwl at rannu costau yn y datganiad gan y cyn Weinidog dros Faterion Gwledig, cyfeiriwyd at y Llywodraeth yn gweithio gyda diwydiant ar faterion yn ymwneud ag iechyd anifeiliaid yn y datganiad:

'Er mwyn gallu mynd i'r afael yn effeithiol ag achosion o glefydau egsotig unrhyw le ym Mhrydain, rhaid i **Lywodraethau a'r sector cyhoeddus, asiantaethau a'r diwydiant allu cyd-drefnu a chydweithio** ... Bydd datganoli'r cyllidebau hyn yn cefnogi'r gwaith hwn ac yn ychwanegu at ei werth, yn ogystal â **chreu cyfleoedd newydd i drafod a gweithio gyda'r diwydiant i ddatblygu polisiau penodol i Gymru**.³³

Gall Llywodraeth Cymru bellach benderfynu ar y ffordd orau o rannu costau clefydau endemig yng Nghymru, yn annibynnol ar weinyddiaethau eraill, tra bydd achosion o glefydau egsotig yn parhau i gael eu trin ar lefel y DU. Fodd bynnag, bydd datblygiadau ym mholisi rhannu costau ar lefel Ewropeaidd yn parhau i effeithio ar Gymru. .

³⁰ Llywodraeth Cymru, Elin Jones (y Gweinidog dros Faterion Gwledig), [**Datganoli Cyllidebau ar gyfer Iechyd a Lles Anifeiliaid o DEFRA**](#), (Datganiad Ysgrifenedig) 14 Mawrth 2011

³¹ *ibid*

³² Datganiad i'r Wasg Llywodraeth yr Alban, [**Animal Health Budget Devolved**](#), 14 Mawrth 2011 [Cafwyd mynediad ato ar 15 Mawrth 2011]

³³ Llywodraeth Cymru, Elin Jones (y Gweinidog dros Faterion Gwledig), [**Datganoli Cyllidebau ar gyfer Iechyd a Lles Anifeiliaid o DEFRA**](#), (Datganiad Ysgrifenedig) 14 Mawrth 2011

Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth am agweddau ar Rannu Cyfrifoldebau a Chostau Iechyd Anifeiliaid, cysylltwch â **Nia Seaton** (Nia.Seaton@cymru.gov.uk), Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau.

Am ragor o wybodaeth am y testunau isod, cliciwch ddwywaith ar y linciau.

- [Gwefan Rhannu Cyfrifoldeb a Chostau](#) Llywodraeth Cymru
- Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru [2006](#) a [2008](#) ar Rannu Cyfrifoldebau a Chostau
- EU Animal Health Strategy Action Plan [Progress](#)

Edrychwch ar ein rhestr lawn o [hysbysiadau hwylus](#) yma.

Rhif ymholiad: 11/0671 Hannah Rose

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd.

Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon drwy'r post i'r Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd CF99 1NA neu dros e-bost i Research.Service@wales.gov.uk